Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant

Ym 1999 aethom ati i gyflwyno'r Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth er mwyn sicrhau bod cyfundrefn cyfraith cyflogaeth y DU wedi'i seilio ar degwch, hyblygrwydd a phartneriaeth. Drwy'r weithdrefn gyd nabod statudol a mesurau eraill, ail-luniodd y Ddeddf agweddau pwysig ar y gyfraith ar gyflogaeth ac undebau llafur. Am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth, cafodd yr undebau gymorth deddfwriaeth i'w sefydlu eu hunain fel partneriaid allweddol yn y gweithle, gan weithio gyda'r cyflogwyr dros well cynhyrchedd a gwell arferion gweithio. Rydym wedi adeiladu ar y Ddeddf wedyn – er enghraifft drwy gyflwyno rhagor o fesurau sy'n gydnaws â'r teulu.

Dros dair blynedd a hanner wedyn, rydym wedi cadw'n hymrwymiad i ailedrych ar sut mae'r Ddeddf yn gweithio. Mae amseriad yr adolygiad yn gall. Er inni weithio'n agos â'r cyflogwyr a'r undebau llafur wrth ddrafftio'r Ddeddf, roeddem yn gwybod ein bod yn deddfu mewn maes anodd. Oherwydd hynny, roeddem am gael golwg gynnar i we ld a fyddai'r Ddeddf yn gweithio.

Mae canfyddiadau'r Adolygiad hwn yn dangos un peth yn anad dim: er gwaethaf darogan fel arall, mae'r Ddeddf wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae darpariaethau'r Ddeddf wedi bod yn ymarferol. Gydag ychydig yn unig o eithriadau, mae'r cyflogwyr a'r gweithwyr wedi'i derbyn fel setliad rhesymol. Mae diwylliant newydd yn y gwaith yn dechrau dod i'r amlwg.

Er hynny, mae'r Adolygiad wedi nodi rhai meysydd lle nad yw'r ddeddfwriaeth yn glir neu lle mae wedi gadael bylchau ar agor. Gan hynny, rydym yn cynnig rhai newidiadau cyfyngedig ond angenrheidiol mewn fframwaith cyfreithiol sydd fel arall yn gadarn ac yn effeithiol.

Rydym wedi achub ar y cyfle hefyd yn yr Adolygiad hwn i asesu goblygiadau dyfarniad y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd fis Gorffennaf diwethaf yn achos Wilson a Palmer. Rydym wedi gwneud cynigion i wella hawliau undebau llafur, ac yn cadw rhyddid allweddol cyflogwyr a gweithwyr i wneud contractau unigol.

Rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn ystod oes y Senedd hon i roi argymhellion yr Adolygiad ar waith. I'n helpu i ddrafftio'r Mesur, hoffwn estyn croeso cynnes i'ch sylwadau ar ganfyddiadau'r Adolygiad ac ar y cynigion ynddo.



Patricia Hewitt